

# Dewch yn Ofalwr Maeth



**Gwasanaethau Cymdeithasol**



## Beth yw Maethu?

Mae Maethu yn golygu gwneud gwahaniaeth i fywyd plentyn er mwyn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial.

Gofal Maeth yw edrych ar ôl plentyn neu blant rhywun arall yn eich cartref eich hun am gyfnodau byr neu hir, efallai hyd nes i'r plentyn gyrraedd oed gŵr neu wraig.

Gofal maeth yw gweithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd a gweithwyr cymdeithasol. Golyga fynychu rhai cyfarfodydd ac adolygiadau ynghylch y plentyn, a disgwylir i ofalwyr maeth annog plant i gynnal cysylltiad â'u teuluoedd geni.

Gofal Maeth yw helpu plentyn i ddeall paham na all ef/hi fyw gartref, a helpu plentyn i ddeall y gorffennol ac adeiladu hunanhyder ar gyfer y dyfodol.

Mae Gofal Maeth ynghylch derbyn y plentyn am yr hyn yw, heb ystyried hil, crefydd, iaith, rhyw, oedran, diwylliant, anabledd neu gyfeiriadedd rhywiol; ac ynghylch agwedd anfeiriadol tuag at blant a'u teuluoedd.

Gall Gofal Maeth yn aml olygu ymdrin ag ymddygiad anodd neu heriol, a gall olygu wynebu ansicrwydd a newid, i'r plentyn ynghyd â'r gofalwyr.



Golyga Gofal Maeth roi amser, gofod, cyd-ddealltwriaeth ac arweiniad, a gosod ffiniau clir y gall plentyn eu deall. Mae hefyd ynghylch gadael i blentyn wybod eich bod yno ar ei gyfer/chyfer pan fydd eich angen arno/i.

Mae Gofal Maeth ynghylch helpu plant mewn angen i fyw mewn teuluoedd cyffredin a gwneud pethau cyffredin.

Mae arnom angen gofalwyr maeth ar gyfer plant o bob oed, ond yn enwedig ar gyfer yr ardegau, ac ar gyfer brodyr a chwiorydd sydd angen eu lleoli gyda'i gilydd.

## A gaiff Gofalwyr Maeth eu talu?

Telir lwfans wythnosol i ofalwyr am y plentyn, sy'n cwmpasu eitemau megis dillad, bwyd, gweithgareddau hamdden, gwisg a chyfarpar ysgol, cludiant ac arian poced. Dibynna'r swm a delir ar oed y plentyn. Nid cyflog yw'r lwfans hwn ac nid yw'n effeithio ar dreth nac ar fudd-daliadau.

## A oes angen hyfforddiant ar Ofalwyr Maeth?

Rydym yn rhedeg cwrs hyfforddiant rhagarweiniol, y mae'n rhaid i'r holl ddarpar ofalwyr maeth ei fynychu. Mae'r hyfforddiant yn helpu pobl i ddeall y dasg o faethu ac mae'n rhoi llawer o wybodaeth a chynghor. Cynigir hyfforddiant pellach wedi i ofalwyr gael eu cymeradwyo, ac mae'n rhaid i'r holl ofalwyr fynychu nifer penodedig o sesiynau hyfforddiant sylfaenol. Rydym hefyd yn darparu cyfleoedd i ofalwyr maeth dderbyn NVQ Lefel 3.



## Pwy sy'n gallu maethu?

Gall pob math o bobl faethu. Mae'n rhaid i chi fod dros 21. Gallwch fod yn gyflogedig neu'n ddi-waith, yn sengl, yn briod, neu'n byw gyda phartner, gyda neu heb blant eich hun. Gallwch fod yn berchen neu'n rhentu'ch cartref, ond mae'n rhaid i chi gael gofod i blentyn, ddylai gael ei ystafell/hystafell ei hun. Rydym yn croesawu ceisiadau oddi wrth bob math o bobl ac o bob cefndir ethnig.

## Beth sy'n digwydd pan wnaif gais i ddod yn Ofalwr Maeth?

Byddwn yn anfon pecyn gwybodaeth atoch ac fe gewch ymweliad cychwynnol oddi wrth aelod o'n Tîm Lleoli o fewn 1 wythnos, i roi i chi fwy o fanylion ynghylch maethu, ac i wirio bod gennych ofod yn eich cartref ar gyfer plentyn.



Os penderfynwch ddilyn y trywydd ymhellach fe'ch gwahoddir i'r 3 sesiwn rhagarweiniol cychwynnol.

Bydd arnoch angen archwiliad meddygol, a bydd yn rhaid gwirio a oes gennych unrhyw gofnodion troseddol. Fe ddisgwylir i chi yn ogystal ddarparu enwau 3 pherson all roi geirda personol i chi.

Unwaith y cwblheir y gwiriadau hyn bydd Gweithiwr Cymdeithasol o'r Tîm Maethu yn cwblhau asesiad ohonoch chi a'ch teulu. Bydd hyn o gymorth i ni benderfynu pa blant y gallwch ofalu amdanynt orau, a bydd o gymorth i chi a'ch teulu baratoi ar gyfer y dasg o faethu.

## Sut i gysylltu â ni

Tîm Lleoli  
Gwasanaethau Cymdeithasol  
Ganolfan Adnoddau Teulu  
Heol Beaufort  
Glyn Ebwy  
NP23 5LH



Ffôn: 07890 312429  
Ebost: [fostering@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:fostering@blaenau-gwent.gov.uk)

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn Braille, print bras, yn electronig neu ar dâp sain cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth ar (01495) 354630 os gwelwch yn dda.

Taflen CS016-5 Mai 2017  
[www.blaenau-gwent.gov.uk](http://www.blaenau-gwent.gov.uk)

